# Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

**Tabl Rheoli Dogfen**

| | |
|---|---|
| **Teitl y ddogfen:** | **Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant** |
| **Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):** | Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Athrofa Padarn Sant |
| **Rhif y fersiwn:** | 1 |
| **Statws y ddogfen:** | Cymeradwywyd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 22 Awst 2019 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Pwyllgor Busnes Padarn Sant, Cyngor Padarn Sant |
| **Dyddiad rhoi mewn grym:** | Awst 2019 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | Mehefin 2022 |
| **Y fersiwn a ddisodlir:** | |
| **Dogfennau cysylltiedig:** | Polisi Cydraddoldeb Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru<br>https://www.churchinwales.org.uk/resources/clergy/equal-opportunities-policy/<br>Polisi Disgyblu Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru<br>Polisi Disgyblu Padarn Sant |

**Hanes y ddogfen**

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Awdur** | **Nodiadau ar yr adolygiadau** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gorffennaf 2019 | Kathryn Delderfield | |

# Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant

## 1. Cynnwys y Polisi


1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Diffiniadau
4. Nodau


## 2. Cyflwyniad

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi Cydraddoldeb Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, ac mae'n seiliedig ar yr un egwyddor o hyrwyddo diwylliant lle y ceir urddas, parch a thegwch. Mae Padarn Sant yn rhan annatod o'r Eglwys yng Nghymru, ac o'r herwydd mae'n gweithio'n ôl polisi Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Mae polisi Padarn Sant yn crisialu'r modd mae'r polisi hwn yn berthnasol i gyd-destun Padarn Sant.

Bydd Padarn Sant yn hyrwyddo diwylliant, arferion ac amgylcheddau dysgu, addysgu, cymdeithasol a gweithio sy'n hygyrch, yn deg ac yn gynhwysol. Mae hyn yn cyd-fynd â Nod Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru o gael Cymru fwy cyfartal.

## 3. Diffiniadau

Mae *cyfle cyfartal* yn cyfeirio at ddileu gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol anghyfreithlon ac annheg mewn perthynas â grwpiau arbennig, ac mae'n hyrwyddo mynediad, triniaeth a chanlyniadau cyfartal sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion penodol unigolion.

Mae *amrywiaeth* yn cwmpasu gwahaniaethau y gellir ac na ellir eu gweld, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wahaniaethau a ddiogelir gan ddeddfwriaethau gwrth-wahaniaethu. Hanfod yr arfer o werthfawrogi amrywiaeth yw trysori gwahaniaethau a chydnabod bod gan bawb, oherwydd eu cymysgedd unigryw o sgiliau a phrofiad, eu cyfraniad gwerthfawr eu hunain i'w wneud.

## 4. Nodau

Dyma nod Padarn Sant yn hyn o beth:

Dileu gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth anghyfreithlon. Mae hyn yn golygu:

- Helpu pobl i ddeall ystyr y termau hyn, a pha agweddau a mathau o ymddygiad sy'n amhriodol;
- Sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal;
- Dileu gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r gwaith a'r amgylchedd astudio.

Hyrwyddo a hybu cyfle cyfartal. Mae hyn yn golygu:

- Lleihau effaith anfantais;
- Pennu, deall a bodloni anghenion ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n dysgwyr;
- Annog pobl i wneud yn fawr o gyfleoedd, yn enwedig pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Hyrwyddo a meithrin perthnasau da rhwng pobl. Mae hyn yn golygu:

- Hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth;
- Mynd i'r afael â rhagfarn;
- Esbonio'r manteision sydd ynghlwm wrth amrywiaeth.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o gymuned Padarn Sant – yn cynnwys dysgwyr, dysgwyr eraill, gwirfoddolwyr a staff – i ymddwyn bob amser gydag urddas, cwrteisi a pharch, yn ogystal ag ymddwyn mewn modd na fydd yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon. Pe bai'r polisi hwn yn cael ei dorri, bydd camau disgyblu'n cael eu rhoi ar waith; a phe bai rhywbeth anghyfreithlon yn cael ei gyflawni, bydd yr awdurdod priodol yn cael ei hysbysu.